Great British
ENERGY | NUCLEAR

# Cyfleoedd ar gyfer gyrfa yn Great British Energy – Nuclear



# Great British Energy – Nuclear

**Great British Energy – Nuclear Mae (GBE-N) yn gorff hyd braich i'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, ac mae wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu technolegau niwclear newydd ym Mhrydain.**

Rydym yn cyflawni, galluogi, a chynghori ar brosiectau niwclear newydd, gan gydweithio â'r llywodraeth a diwydiant er mwyn sefydlu prosiectau, sicrhau safleoedd, dewis technolegau, defnyddio cyllid datblygu, ac adeiladu sgiliau.

Mae gennym rôl hanfodol i'w chwarae er mwyn hybu adeiladu gorsafoedd niwclear newydd, gan gryfhau diogeledd ynni'r DU, a sicrhau allyriadau carbon net sero.

Yn 2023, dechreuodd Great British Energy – Nuclear y broses o ddewis technolegau ar gyfer Adweithyddion Modiwlaidd Bach (SMRs). Ym mis Tachwedd 2025, yn dilyn proses ddewis ddwy flynedd, dewiswyd SMR Rolls-Royce fel y partner technoleg a ffefrir.

**Bydd y rhaglen yn gweithredu tair uned SMR, â'r safle cyntaf wedi'i gadarnhau yn Wylfa ar Ynys Môn,** a byddant yn cael dros £2.5 biliwn o fuddsoddiad gan y llywodraeth.

Mae SMRs yn addo gweithredu cyflymach a chostau is na gorsafoedd niwclear traddodiadol, gan eu bod yn llai, yn cael eu gweithgynhyrchu mewn dull modiwlaidd mewn ffatri, ac yn hyblyg o ran opsiynau lleoli.

Mae'r garreg filltir hon yn gam mawr tuag at sicrhau ynni glân a dibynadwy, creu miloedd o swyddi medrus, a chryfhau annibyniaeth ynni'r DU.

Mae Great British Energy – Nuclear yn ceisio gweithredu'n gyflym, ar sail diwylliant cefnogol a chydweithredol, sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn creu gweithle cynhwysol.

# Byddwch yn rhan o siwrnai niwclear Prydain

**Yn Great British Energy – Nuclear**

Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Rydym yn croesawu ac yn dathlu safbwyntiau a chefndir unigryw pob un o'n gweithwyr.

Rydym wedi ymrwymo i greu gweithle lle mae pawb yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu, a'i rymuso i gyfrannu hyd eithaf ei allu.



## Cliciwch i ymweld â'n tudalen LinkedIn

Dysgwch ragor am gyfleoedd yn Great British Energy – Nuclear.

# Byddwch yn rhan o rywbeth mawr!



**Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir ac rydym wedi ymrwymo i adeiladu diwylliant lle mae amrywiaeth yn cael ei ddathlu.**

## Ein Cenhadaeth

Rydym yn gweithredu, galluogi, a chynghori ar brosiectau niwclear newydd. Rydym yn gwneud hyn drwy fod yn arbenigwyr yn ein maes a chanolbwyntio ar ganlyniadau; drwy roi blaenoriaeth i ddiogelwch; a thrwy hybu effeithlonrwydd wrth ddysgu.

Rydym yn cydweithio â'r llywodraeth a diwydiant er mwyn sefydlu prosiectau, sicrhau safleoedd, dewis technolegau, defnyddio cyllid datblygu, ac adeiladu sgiliau.

## Ein Diben

Rydym yn gwneud i brosiectau niwclear newydd ddigwydd er mwyn rhoi ynni diogel, dibynadwy, a chynaliadwy i ni.

### Ymddiriedaeth

Rydym yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch, rydym yn gweithredu'n gyfrifol ac yn egwyddorol.

### Hybu

Rydym yn sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud ac rydym yn gwneud gwahaniaeth.

### Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm; rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac arbenigedd.

### Herio

Rydym yn chwilfrydig ac yn ddewr o ran y ffordd rydym yn meddwl ac yn gweithredu.

### Gofalu

Rydym yn feddylgar, yn gynhwysol ac yn parchu pobl eraill.

# Manteision ymuno â GBE-N

### Cyflog Cystadleuol a Bonws Blynyddol

- Mae pob cyflog yn cael ei feincnodi gan ddefnyddio methodoleg Korn Ferry Hay er mwyn sicrhau tegwch a bod yn gystadleuol yn y farchnad.
- Rydym yn cynnig Cynllun Cymhelliant Blynyddol dewisol er mwyn gwobrwyo perfformiad rhagorol.

### Buddion Iechyd, Llesiant a Ffordd o Fyw

- Mynediad at ystod o fuddion eraill, gan gynnwys gostyngiad ar aelodaeth o gampfa, arbedion ar gynhyrchion technoleg a ffordd o fyw, a mwy.
- Buddion iechyd, gan gynnwys llinell gymorth gyfrinachol 24/7 i chi a'ch teulu agosaf a gwasanaethau meddyg teulu rhithwir â mynediad at gyngor iechyd a ffisiotherapi ar-lein.

### Yswiriant Bywyd a Diogelu Incwm

- Yswiriant Bywyd 4 gwaith cymaint â'ch cyflog blynyddol ar gyfer tawelwch meddwl.
- Diogelu Incwm – hyd at 50% o'ch cyflog os byddwch yn cael salwch hirdymor neu anaf.

### Gwyliau Blynyddol Hael

- Mwynhewch 30 diwrnod o wyliau blynyddol, a holl wyliau banc y DU.
- Gallwch brynu neu werthu hyd at 5 diwrnod bob blwyddyn a chario hyd at 5 diwrnod drosodd i'r flwyddyn wyliau nesaf.
- Yn ogystal, gallwch gymryd 2 ddiwrnod o absenoldeb gwirfoddol bob blwyddyn i gefnogi achosion neu ymrwymiadau personol sy'n bwysig i chi.

### Cyfraniad Pensiwn Diffiniedig

- Er mwyn eich cefnogi yn y dyfodol, mae ein cynllun pensiwn yn cynnig cyfraniadau cyflogwr rhagorol, hyd at 14% o gyfraniad cyflogwr pan fyddwch chi'n cyfrannu 7%.

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost atom yn:
**recruitment@greatbritishnuclear.uk**



# Siwrnai ymgeiswyr

## Cais

Cyflwynwch eich crynodeb a'ch cais er mwyn cychwyn eich taith gyda ni. Gwnewch yn siŵr bod yr holl fanylion gofynnol wedi'u cynnwys er mwyn i'r broses fod yn ddirwystr. Cewch gadarnhad unwaith y bydd eich cais wedi'i gyflwyno.

## Galwad Sgrinio

Byddwn yn adolygu eich sgiliau a'ch profiad er mwyn gweld a ydynt yn cyfateb i'r rôl. Os cewch eich dewis, byddwn yn cysylltu â chi i ddweud beth yw'r camau nesaf. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at ddysgu rhagor ynglŷn â'r hyn rydych yn ei gynnig i ni.

## Cyfweliad Ymddygiadol

Rhannwch eich profiadau a sut rydych yn delio â sefyllfaoedd mewn bywyd go iawn. Dyma eich cyfle i ddisgleirio—bydd eich perfformiad yma yn helpu i benderfynu a fyddwch yn symud ymlaen. Pwysleisiwch eich gwerthoedd a sut rydych yn gweithio mewn tîm er mwyn cael eich gweld.

## Cyfweliad Technegol

Dangoswch eich sgiliau technegol drwy heriau ymarferol neu drafodaethau. Mae'r cam hwn yn ein helpu i ddeall eich arbenigedd a'ch dull o ddatrys problemau. Rydym yma i'ch cefnogi ar bob cam o'r daith.

## Penderfyniad

Byddwn yn dod â'r adborth i gyd at ei gilydd i wneud penderfyniad meddylgar. Os cewch eich dewis, byddwn yn cynnig swydd i chi! P'un bynnag, byddwn yn cysylltu â chi i roi diweddariad ac adborth.

# Addasiadau rhesymol

## Yn GBE-N, rydym wedi ymrwymo i recriwtio teg a chynhwysol.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr sy'n cynnwys pobl anabl.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau a chyflyrau iechyd hirdymor ac rydym wedi ymrwymo i greu gweithle lle gall pawb ffynnu. Rydym yn darparu addasiadau rhesymol drwy gydol y broses recriwtio ac yn ystod cyflogaeth, yn hybu diwylliant cynhwysol drwy ymwybyddiaeth a hyfforddiant, ac yn cynorthwyo cydweithwyr i aros yn eu gwaith os bydd eu hanghenion yn newid.

Os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd, mae gennych hawl i ofyn am addasiadau rhesymol i'r broses ymgeisio neu gyfweld. Dylai cyfweliadau ac asesiadau fesur eich gallu i wneud y gwaith, nid creu rhwystrau. Os gall newid ddileu anfantais a achosir gan eich amhariad, mae'n cael ei ystyried yn addasiad rhesymol.

### Addasiadau i'r Cam Ymgeisio

- Egluro gofynion y swydd mewn iaith glir.
- Ffordd gyfrinachol o rannu eich anghenion yn gynnar yn y broses.

### Cefnogaeth Gyffredinol

- Canllawiau clir ynglŷn â beth i'w ddisgwyl.
- Adborth a gwybodaeth ddilynol hygyrch.

### Addasiadau i'r Cam Cyfweld

- Trefniadau hyblyg neu gyfweliadau o bell.
- Amser ychwanegol ar gyfer tasgau neu asesiadau.
- Rhannu cwestiynau cyfweliad ymlaen llaw. (lle bo'n briodol)
- Cymorth gan gyfieithydd, anogwr gwaith, neu rywun sy'n cefnogi.
- Mynediad heb risiau, ystafelloedd tawel.
- Dulliau cyfathrebu wedi'u haddasu.
- Fformatau amgen. (e.e. tasgau llafar yn lle rhai ysgrifenedig)

disability confident COMMITTED



# Cysylltwch â ni

recruitment@greatbritishnuclear.uk

## Bydd ein tîm denu talent yn cysylltu â chi

- in great-british-energy-nuclear
- X GBNgovuk
- GreatBritishEnergy-Nuclear

**Great British Energy – Nuclear**

Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net

3-8 Whitehall Place,
Llundain, SW1A 2EG, 8